

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent

Aseiad Llesiant Lleol Basn Caerffili

Aseiad Llesiant Lleol Bwrdeistref Sirol Caerffili

CHWEFROR 2022

Asesiad Llesiant Lleol Basn Caerffili

Cynnwys

1	Crynodeb gweithredol	3
2	Disgrifiad o Fasn Caerffili	4
3	Ynghylch Basn Caerffili	5
4	Llesiant cymdeithasol	7
4.1	Ynghylch y gymuned	7
4.2	Mynd o gwmpas	8
4.3	Mynediad at wasanaethau	10
4.4	Trosedd a diogelwch cymunedol	11
4.5	Amddifadedd	11
4.6	Iechyd	15
4.7	Tai ac aelwydydd	16
5	Llesiant economaidd	18
5.1	Addysg	18
5.2	Gwaith a sgiliau	18
6	Llesiant amgylcheddol	21
7	Llesiant diwylliannol	23
8	Yr hyn y mae ein trigolion wedi'i ddweud wrthym	27
	Cyfeiriadau	28

1 Crynodeb gweithredol

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r asedau a'r heriau allweddol a nodwyd yn yr Asesiad Llesiant Lleol hwn ar gyfer Basn Caerffili.

Asedau

Ar wahân i Gwm Aber, mae'r ardal gymunedol yn elwa o'i hagosrwydd at Gaerdydd a choridor yr M4. Mae cysylltiadau rheilffordd da ar hyd rheilffordd Cwm Rhymni i mewn i Gaerdydd, a chysylltiadau bws o ganol tref Caerffili allan i'r cymunedau cyfagos.

Mae darpariaeth dda ar gyfer yr ardal gymunedol o ran mynediad at wasanaethau gan gynnwys ysgolion lleol, canolfannau hamdden, canolfannau cymunedol, manwerthu, a changhennau banc lleol.

Mae lefelau amddifadedd isel yn y rhan fwyaf o'r ardal, er bod pocedi o amddifadedd lluosog uchel ar draws sawl parth mewn rhannau o ward Bedwas, Tretomos a Machen (Graig-y-raca), ward Penyrheol (yr ardal tai cymdeithasol) a ward Sant Iago (Stad Parc Lansbury).

Mae prisiau tai yn fwy fforddiadwy mewn rhannau o'r ardal gymunedol fel Cwm Aber, gyda chymhareb pris tai i incwm is.

Yn gyffredinol, mae lefelau cyflogaeth uchel ar draws yr ardal gymunedol, er bod pocedi o ddiweithdra a thrigolion sy'n cael eu dosbarthu'n sâl neu'n anabl hirdymor yn yr ystadau tai a nodir uchod. Mae amrywiaeth o safleoedd cyflogaeth yn yr ardal sy'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth i drigolion lleol, ynghyd â pharc manwerthu y tu allan i'r dref sy'n cwmpasu siopau bwyd yn bennaf, a chyfleoedd manwerthu yng nghanol tref Caerffili.

Mae nifer o atyniadau allweddol yn yr ardal gymunedol, gan gynnwys Castell Caerffili (sy'n cael buddsoddiad mawr gan Cadw ar hyn o bryd) a Gardd Goffa a Chofeb Genedlaethol y Glowyr Cymru yn Senghenydd, sy'n

atyniad mawr i drigolion a thwristiaid fel ei gilydd, gyda llawer o ymwelwyr yn dod o'r tu allan i'r Fwrdeistref Sirol a thu allan i'r DU.

Mae trigolion lleol wedi dweud wrthym mai un o'r prif bethau cadarnhaol am yr ardal gymunedol yw'r mynediad da i barciau lleol, llwybrau cerdded a mannau gwyrdd. Dywedodd y trigolion wrthym hefyd ei fod yn lle cyfeillgar i fyw gyda digon o ysbryd cymdogol, ac ers dechrau pandemig Covid-19 mae cymunedau yn gwneud mwy i helpu eu hunain.

Heriau

Mae gan yr ardal gymunedol ddwysedd poblogaeth sy'n uwch na chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol, ac mae galw yn y farchnad am dai newydd yn yr ardal. Fodd bynnag, mae trigolion lleol wedi dweud wrthym eu bod yn pryderu am golli mannau gwyrdd ar gyfer datblygu tai.

Mae cyfraddau troseddau yn uwch na chyfartaledd Cymru ar draws yr ardal gymunedol mewn perthynas â mathau o droseddau megis difrod troseddol a byrgleriaeth, ac mae'r materion hyn hyd yn oed yn fwy cyffredin mewn rhannau o wardiau Sant Iago, Martin Sant a Morgan Jones.

Mae gan rannau o'r ardal gymunedol (Cwm Aber yn benodol) lefelau uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer pob achos o farwolaethau a marwolaethau cynamserol, a lefelau is o ddisgwyliad oes iach.

Mae'r gymhareb pris tai i incwm mewn rhannau o'r ardal gymunedol yn uchel, sy'n ei gwneud yn anodd i bobl sengl a phrynwyr tro cyntaf fynd ar yr ysgol dai.

Mae trigolion lleol wedi dweud wrthym eu bod yn cael anhawster cael apwyntiadau i weld eu meddyg teulu, maent yn teimlo y dylid gwneud mwy i helpu grwpiau agored i niwed gyda'u cymunedau (yn enwedig yr henoed), ac maent yn pryderu am ddiogelwch cymunedol yn lleol.

2 Basn Caerffili

Mae ardal gymunedol **Basn Caerffili** wedi'i lleoli ar ben deheuol Cwm Rhymini, ac mae'n cynnwys wardiau Cwm Aber, Bedwas Tretomos a Machen, Llanbradach, Morgan Jones, Penyrheol, Sant Iago a Martin Sant.

Er bod y rhan fwyaf o'r ardal yn elwa o ran ffyniant o'i hagosrwydd at Gaerdydd a choridor yr M4, mae aneddiadau Abertridwr a Senghenydd yng Nghwm Aber (er bod ganddynt eu canolfannau manwerthu cyfyngedig eu hunain) yn dangos nodweddion tebyg i'r ardaloedd mwy difreintiedig yng ngogledd y Fwrdeistref Sirol. Ar hyn o bryd mae Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) Sant Iago 3 sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o ystâd Parc Lansbury (a leolir ar ymyl dwyreiniol tref Caerffili) yn drydydd ACEHI mwyaf difreintiedig Cymru ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 Llywodraeth Cymru.

Y brif dref yw **Caerffili**, sef y dref fwyaf yn y Fwrdeistref Sirol, gyda'i gwreiddiau'n dyddio'n ôl i adeiladu'r Castell Normanaidd yn 1267. Mae'r Castell fel arfer yn denu mwy na 110,000 o ymwelwyr bob blwyddyn, ond bydd y ffigur hwn wedi'i effeithio gan bandemig Covid-19 dros y ddwy flynedd diwethaf. Mae gan y dref sylfaen fanwerthu gymharol gryf sydd wedi dioddef oherwydd diffyg buddsoddiad a datblygiad yn y blynyddoedd diwethaf ac sydd hefyd wedi'i heffeithio gan gau nifer o fanwerthwyr cenedlaethol yn y blynyddoedd diwethaf. Cafodd [Prif Gynllun Basn Caerffili](#) ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2018, ac mae'n nodi'r cyfleoedd datblygu ac adfywio a gynigir yn y dyfodol ar gyfer canol tref Caerffili o fewn cyd-destun Basn Caerffili ehangach. Mae'n ceisio adeiladu ar gryfderau presennol Caerffili i sicrhau bod y dref yn gwella ei rôl fel canolfan manwerthu, twristiaeth a chyflogaeth, a gefnogir gan ddatblygiadau tai newydd mewn mannau cynaliadwy.



Mae **Bedwas** yn ganolfan leol sydd â chanolfan fanwerthu fechan gyda darpariaeth manwerthu cyfyngedig.

Ffigur 1: Castell Caerffili

Ffigur 2: Ystad Parc Lansbury, Caerffili

3 Ynghylch Basn Caerffili

Asesiad Llesiant Lleol Basn Caerffili

Ardal	79.4 km ² – tua 28.6% o gyfanswm arwynebedd Bwrdeistref Sirol Caerffili sef 278km ²																
Poblogaeth 	Amcangyfrifir bod y boblogaeth yn 56,542 – tua 31.1% o gyfanswm y boblogaeth ar gyfer Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef 181,731 ¹ .																
Dwysedd poblogaeth	Dwysedd y boblogaeth yw 7.12 o bobl yr hectar, ac ACEHI Penyrheol 6, Morgan Jones 4 a Martin Sant 5 sydd â'r poblogaethau uchaf. Mae 6.53 o bobl yr hectar ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn ei chyfanrwydd ² .																
Anheddau 	Y cyfrif anheddau yw 24,684 – tua 30.8% o gyfanswm nifer yr anheddau ym Mwrdeistref Sirol Caerffili ar 80,149 ³ .																
Cyffredinol	Mae Basn Caerffili yn cynnwys 7 Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Ganol (ACEHG), sy'n cynnwys 35 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI). Wrth edrych ar ardaloedd daearyddol llai, gallwn weld unrhyw wahaniaethau a all effeithio ar lesiant.																
	<table border="1" style="width: 100%;"> <thead> <tr> <th style="text-align: left;">ACEHlau</th> <th style="text-align: left;">ACEHGau</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Cwm Aber 1 - 4</td> <td>Caerffili 018</td> </tr> <tr> <td>Bedwas Tretomos a Machen 1 - 7</td> <td>Caerffili 019</td> </tr> <tr> <td>Llanbradach 1 - 3</td> <td>Caerffili 020</td> </tr> <tr> <td>Morgan Jones 1 – 4</td> <td>Caerffili 021</td> </tr> <tr> <td>Penyrheol 1-8</td> <td>Caerffili 022</td> </tr> <tr> <td>Sant Iago 1-4</td> <td>Caerffili 023</td> </tr> <tr> <td>Martin Sant 1 – 5</td> <td>Caerffili 024</td> </tr> </tbody> </table>	ACEHlau	ACEHGau	Cwm Aber 1 - 4	Caerffili 018	Bedwas Tretomos a Machen 1 - 7	Caerffili 019	Llanbradach 1 - 3	Caerffili 020	Morgan Jones 1 – 4	Caerffili 021	Penyrheol 1-8	Caerffili 022	Sant Iago 1-4	Caerffili 023	Martin Sant 1 – 5	Caerffili 024
ACEHlau	ACEHGau																
Cwm Aber 1 - 4	Caerffili 018																
Bedwas Tretomos a Machen 1 - 7	Caerffili 019																
Llanbradach 1 - 3	Caerffili 020																
Morgan Jones 1 – 4	Caerffili 021																
Penyrheol 1-8	Caerffili 022																
Sant Iago 1-4	Caerffili 023																
Martin Sant 1 – 5	Caerffili 024																

Allwedd:

Llinell Las – ffin ACEHI

Llinell Goch – ffin ACEHG

Ffigur 3: Map o Fasn Caerffili

4 Llesiant cymdeithasol

4.1 Ynghylch y gymuned

Yn gyffredinol, cynyddodd poblogaeth amcangyfrifedig Basn Caerffili o tua 875 o drigolion, o 55,667 yng Nghyfrifiad 2011 i 56,542 yn 2020⁴(+1.6%), o gymharu â chynnydd o 3.5% yng Nghymru gyfan. Gwelodd 15 o'r 35 ACEHI ym Masn Caerffili gynnydd yn eu poblogaeth dros y cyfnod hwn, gyda'r cynnydd mwyaf yn Morgan Jones 4 (cynnydd o 22.8% neu 386 o bobl), Morgan Jones 2 (cynnydd o 17.6% neu 255 o bobl) a Phenyrheol 6 (i fyny 13.9% neu 349 o bobl). Gwelodd yr 20 ACEHI arall ostyngiad yn eu poblogaeth dros y cyfnod, gyda'r gostyngiadau mwyaf yn Morgan Jones 3 (gostyngiad o 7.5% neu 146 o bobl, Penyrheol 5 (gostyngiad o 5.4% neu 94 o bobl)) a Bedwas Tretomos a Machen 5 (gostyngiad o 5.3% neu 90 o bobl). Gall deall sut y gallai'r boblogaeth newid yn y dyfodol ein helpu i feddwl am heriau a chyfleoedd llesiant allweddol.

Yn anffodus, nid yw rhagamcanion poblogaeth ar gael o dan lefel y Fwrdeistref Sirol, felly mae'r ffigurau hyn wedi'u cynnwys isod.

Rhagwelir y bydd poblogaeth gyffredinol Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cynyddu 2.0% rhwng 2019 a 2043⁵, i 186,991. Mae hyn mewn cyferbyniad â thueddiadau diweddar, lle cynyddodd y boblogaeth 5.4% rhwng cyfrifiad 1991 a chyfrifiad 2011.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl 0-15 oed sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn gostwng 7.4% rhwng 2019 a 2043, sy'n debyg yn fras i gyfartaledd Cymru o 8.0%⁶. Rhagwelir y bydd y gostyngiad mwyaf hyd at 2028 ac yn dilyn hynny rhagwelir y bydd y ffigur yn aros yn weddol gyson, sef tua 31,000. Gallai hyn olygu 2,521 yn llai o bobl yn yr ystod oedran yma ar draws y Fwrdeistref Sirol erbyn 2043.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl 16-64 oed sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol yn gostwng 3.1% rhwng 2019 a 2043 (o'i gymharu â gostyngiad o 2.1% yng Nghymru gyfan), gyda gostyngiad eithaf cyson yn cael ei ragamcanu dros y

cyfnod. Gallai hyn olygu 3,487 yn llai o bobl yn yr ystod oedran hon ar draws y Fwrdeistref Sirol erbyn 2043⁷.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl 65 oed neu hŷn sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn cynyddu 27.2% rhwng 2019 a 2043, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o 28.7%⁸. Ar gyfer Bwrdeistref Sirol Caerffili gallai hyn olygu 9,653 o bobl ychwanegol yn yr ystod oedran hon erbyn 2043⁹. Mae'r ffigur hwn 61% yn uwch na'r gostyngiad rhagamcanol cyfunol yn ffigurau'r boblogaeth ar gyfer y grwpiau oedran 0-15 a 16-64 erbyn 2043¹⁰.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl 85 oed neu hŷn sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn cynyddu 82.6% rhwng 2019 a 2043, sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru o 69.5%. Ar gyfer y Fwrdeistref Sirol gallai hyn olygu 3,145 o bobl ychwanegol yn yr ystod oedran yma erbyn 2043¹¹.

Yn sicr, mae llawer o fanteision posibl i lesiant unigolion, teuluoedd a chymunedau yn sgil pobl sy'n byw'n hirach.

Fodd bynnag, mae hyn yn golygu y gallai fod galw uwch am ofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd yn y dyfodol, yn enwedig ymhlith y boblogaeth oedrannus, wrth i'r duedd yn y galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gynyddu wrth i ni fynd yn hŷn.

Bydd poblogaeth sy'n heneiddio hefyd angen tai priodol sy'n diwallu eu hanghenion, yn awr ac yn y dyfodol.

Nid yw'r data diweddaraf o Gyfrifiad 2021 ar gael, ond yng Nghyfrifiad 2011:

Cymry Cymraeg

Gallai 25.7% o drigolion ym Masn Caerffili o leiaf siarad rhywfaint o Gymraeg, sy'n uwch na chyfartaledd Bwrdeistref Sirol Caerffili o 22.2%, ond yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru o 37.8%¹².

Asesiad Llesiant Lleol Basn Caerffili

Gwlad geni	Ganed 85.7% o drigolion ym Masn Caerffili yng Nghymru, ychydig yn is na chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol o 88.6%, ond yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru o 72.7% ¹³ .
Ethnigrwydd	Roedd 97.9% o drigolion ym Masn Caerffili o ethnigrwydd Gwyn, ychydig yn is na chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol o 98.3% ac yn uwch na chyfartaledd Cymru o 95.6% ¹⁴ .
Crefydd	Roedd 50.9% o drigolion ym Masn Caerffili yn nodi Cristnogaeth fel eu crefydd, bron yn union yr un fath â chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol o 50.7% ond yn is na chyfartaledd Cymru o 57.5% ¹⁵ .

Bydd cymryd camau i helpu i gefnogi a thyfu'r iaith Gymraeg yn helpu i warchod diwylliant a hunaniaeth Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

4.2 Mynd o gwmpas



Mae pobl yn teithio am amrywiaeth o resymau o fewn Basn Caerffili a thu hwnt; ar gyfer hamdden neu i gwrdd â ffrindiau a theulu, i fynychu addysg neu waith, i symud nwyddau neu ddarparu gwasanaethau, neu i gael mynediad at wasanaethau eu hunain. Mae yna deithwyr i'r ardal hefyd, fel y rhai sy'n gweithio yn yr ystadau diwydiannol neu'r siopau a'r swyddfeydd, a'r rhai sy'n ymweld at ddibenion twristiaeth neu'n mwynhau'r cefn gwlad hyfryd.

Gwasanaethir Basn Caerffili yn dda gan gysylltiadau trafndiaeth i'r de i Gaerdydd, i'r dwyrain i Gasnewydd, ac i'r gogledd i Ystrad Mynach. Gwasanaethir Caerffili gan dair gorsaf reilffordd yng Nghaerffili ei hun - Caerffili, Aber ac Eneu'r-glyn a Pharc Churchill. Mae'r tair gorsaf wedi'u lleoli ar **reilffordd Cwm Rhymni**, sy'n darparu pedwar trên yr awr i Gaerdydd (mae'r trenau'n stopio yn Eneu'r-glyn a Pharc Churchill bob hanner awr). Cyfnewidfa drafnidiaeth yw gorsaf Caerffili, sy'n cysylltu teithiau bws a thrên, gydag amrywiaeth o wasanaethau bws i Gaerdydd, Casnewydd ac i ogledd y Fwrdeistref Sirol. Mae Llanbradach hefyd yn orsaf reilffordd ar Reilffordd Cwm Rhymni. Mae yna hefyd ddyheadau i ailagor lein Caerffili-Machen-Casnewydd ar gyfer gwasanaethau teithwyr, a fyddai'n darparu cyswllt rheilffordd uniongyrchol i Gasnewydd i'r dwyrain.

Mae **Metro De Cymru** yn rhwydwaith cludiant cyhoeddus integredig a fydd yn ei gwneud hi'n haws i bobl deithio ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PRC), gan drawsnewid gwasanaethau trên a bws yn ogystal â beicio a cherdded. Mae Trafnidiaeth Cymru yn buddsoddi £750 miliwn i uwchraddio'r rheilffyrdd i Aberdâr, Coryton, Merthyr Tudful, Rhymni a Threherbert, a elwir yn Brif Linellau'r Cymoedd. I gael rhagor o wybodaeth am y cynlluniau ar gyfer y Metro, ewch i wefan Trafnidiaeth Cymru [Metro De Cymru](#).

Gall trafndiaeth a'i hygyrchedd gael effaith sylweddol ar aelwydydd ag incwm isel neu gyfyngedig, a gall prisiau uchel wneud cludiant cyhoeddus yn opsiwn drud i'r rhai sy'n dibynnu arno. Gall lleihau costau cludiant helpu i gynyddu incwm gwario a helpu i leihau tlodi mewn gwaith.

Mae nifer o fannau gwefru cerbydau trydan cyhoeddus ym Masn Caerffili ym maes parcio Heol yr Orsaf (Caerffili), Parc Manwerthu Gallagher (Caerffili), Archfarchnad Tesco (Caerffili), maes parcio Navigation Street (Caerffili), Morrisons (Caerffili), maes parcio Twyn (Caerffili), tafarn y Red Kite (Caerffili) a Llyfrgell Abertridwr¹⁶.

Asesiad Llesiant Lleol Basn Caerffili

Mae'r stoc tai ym Masn Caerffili yn bennaf yn dai ar wahân neu'n dai pâr. Mae llawer o'r tai hyn yn debygol o fod â dreifiau neu leoedd parcio oddi ar y stryd ar gael, gan eu bod yn tueddu i fod yn eiddo mwy, yn hŷn neu'n rhai mwy modern. Bydd hyn yn gwneud gosod y seilwaith angenrheidiol ar gyfer cerbydau trydan yn fwy syml ar gyfer y tai hyn. Fodd bynnag, mae ychydig o dan draean o Fasn Caerffili yn cynnwys tai teras, felly gallai hyn gyfyngu ar y defnydd o gerbydau trydan yn y tai yma yn y dyfodol oherwydd gallai gwefru cerbydau fod yn broblemus. Bydd cost hefyd yn ffactor i'r rhai ar incwm is. Gobeithio y bydd datblygiadau yn y dyfodol mewn cyfleusterau gwefru trydan yn helpu i ddatrys rhai o'r materion hyn.

Gall cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus wneud cyfraniad pwysig at anghenion trafndiaeth leol, tra hefyd helpu i fynd i'r afael â phroblemau tagfeydd, llygredd a newid yn yr hinsawdd sy'n gysylltiedig â dibyniaeth ar geir.

Gall llwybrau teithio llesol diogel, yn enwedig y rhai sy'n darparu potensial ar gyfer cymudo, helpu i gefnogi ffyrdd iach o fyw. Yn y dyfodol efallai y bydd mwy o bobl yn dewis teithio'n llesol, fel y gallant gadw'n iach yn eu henaint. Efallai y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn defnyddio beiciau trydan i fynd o gwmpas yr ardal.

Mae pandemig Covid-19 wedi gweld llawer ohonom yn cerdded ac yn beicio mwy ac yn gwerthfawrogi gwerth ein manau gwyrdd lleol.

Mae **Llwybr 4 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol** yn llwybr beicio pellter hir o Lundain i Abergwaun yng ngorllewin Cymru. Mae Llwybr Celtaidd y Dwyrain yn teithio i galon Cymoedd De Cymru, gan ddilyn llawer o'r un rheilffyrdd, tramiau a llwybrau tynnu a fu unwaith yn cludo deunyddiau crai y chwyldro diwydiannol. Mae'r llwybr yn cynnwys tirweddau syfrdanol y Cymoedd ac atyniadau hanesyddol a naturiol gan gynnwys Cestyll Casgwent, Cil-y-coed a Chaerffili a Gwlyptiroedd Casnewydd.

O fewn Basn Caerffili mae'r llwybr yn mynd i mewn i'r Fwrdeistref Sirol yn Draethen ac yn dilyn yn fras yr un llwybr â'r A468 trwy Fedwas, Dolydd Trefore, Parc Lansbury, tref Caerffili a Pharc Watford, cyn ymuno â Llwybr 8 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (Lôn Las Cymru) ychydig i'r gogledd o Nantgarw.

Mae **Llwybr 475 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol** (Llwybr Beicio Dyffryn Aber) yn ymuno â Llwybr 4 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol ger Castell Caerffili ac yn rhedeg trwy barciau, ochr yn ochr â ffyrdd, dros bontydd a chroesfannau ffordd. Mae'n llwybr di-draffig sy'n rhedeg am 2.5 milltir ar hyd hen reilffordd i ganol Cwm Aber.

Mae pandemig Covid-19 wedi gweld llawer mwy ohonom yn gweithio gartref ac yn cyrchu gwasanaethau ar-lein, ond mae rhai mathau o waith na ellir eu gwneud o bell nac yn ddigidol, megis gwaith ffatri neu fanwerthu. Efallai na fydd angen i genedlaethau'r dyfodol deithio cymaint i'r gwaith.

Mynediad band eang



Mae gan y mwyafrif helaeth o gartrefi ym Masn Caerffili fynediad at fand eang o 30Mb/s o leiaf, er bod yna ambell fan lle mae mynediad yn waeth, fel Bedwas Tretomos a Machen 1 (9.3% heb fynediad at y cyflymder hwn), Bedwas Tretomos a Machen 4 (13.2%) a Sant Iago 1 (18.4%)¹⁷. Mewn 21 o'r 35 ACEHI ym Masn Caerffili, mae mynediad at gyflymder band eang o 30Mb/s o leiaf dros 99%.

Er bod hygyrchedd band eang ym Masn Caerffili yn dda iawn ar y cyfan, mae fforddiadwyedd band eang yn llawer mwy o broblem i'r rheini sydd ar incwm isel neu incwm cyfyngedig. Gall llythrennedd digidol gwael hefyd fod yn rhwystr sylweddol i rai grwpiau o fewn y gymuned.

Asesiad Llesiant Lleol Basn Caerffili

Gall cymunedau'r dyfodol fod yn llai dibynnol ar systemau telathrebu sefydlog a gallai mwy o bobl ddefnyddio technolegau mwy newydd fel 5G ac ati.

Nid ydym yn gwybod ar hyn o bryd a fydd gweithio gartref a mynediad ar-lein i wasanaethau yn drefniant parhaol am y dyfodol rhagweladwy, neu a fydd pobl yn dechrau dychwelyd i'w mannau gwaith neu'n dewis cyrchu gwasanaethau wyneb yn wyneb. Mewn gwirionedd mae'n debygol y bydd cyfuniad o ryngweithio ar-lein, o bell a phersonol. Yn y dyfodol bydd angen i Fwrdeistref Sirol Caerffili gyfan (gan gynnwys Basn Caerffili) fod yn seibrddiogel ac yn ddigidol gynhwysol.

4.3 Mynediad i wasanaethau



Caerffili yw'r brif dref o fewn Basn Caerffili, a bydd trigolion yn teithio o ardaloedd cyfagos i'r dref i gael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Mae ganddi dair archfarchnad genedlaethol fawr (Asda, Morrisons a Tesco), saith cangen banc, dwy gangen cymdeithas adeiladu ac mae hefyd yn bencadlys banc cymunedol Smart Money Cymru. Mae ganddi hefyd amrywiaeth eang o siopau cenedlaethol ac annibynnol llai ar hyd Heol Caerdydd (y brif stryd fawr) a chanolfan siopa Cwrt y Castell.

Mae gan bentrefi eraill ym Masn Caerffili, megis **Bedwas**, **Abertridwr a Senghenydd**, ddarpariaeth adwerthu gyfyngedig gyda siopau annibynnol lleol yn bennaf.

Mae canol tref Caerffili a'r cyffiniau yn ganolfan gyflogaeth bwysig yn y Fwrdeistref Sirol. Mae yna hefyd nifer o safleoedd cyflogaeth o fewn Basn Caerffili yn stadau diwydiannol Tŷ Bedwas, Pantglas (Bedwas),

Pontygwindy, Greenway a Gorllewinol, ynghyd â pharciau busnes Caerffili a Threcenydd. Mae Parc Manwerthu Gallagher wedi'i lleoli ar gyrion tref Caerffili lle lleolir nifer o fanwerthwyr cartref a bwyd cenedlaethol.

Ar draws Basn Caerffili ceir y gwasanaethau canlynol:

Math o ased	Rhif
Ysgol Gynradd	18
Ysgol Uwchradd	4
Llyfrgelloedd	5
Canolfannau hamdden	3
Canolfan gymunedol	10
Banciau/Cymdeithasau Adeiladu	9
Swyddfa Bost	10
Parciau gwledig	1

Mae Basn Caerffili yn cynnwys pymtheg o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, tair ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, a thair ysgol gyfun cyfrwng Saesneg (Ysgol Uwchradd Bedwas, Martin Sant a Cenydd Sant), yn ogystal â safle cyfrwng Cymraeg Y Gwyndy Ysgol Gyfun Cwm Rhymini, sy'n gwasanaethu'r cyfan o ardal Basn Caerffili. Mae'r holl Ysgolion Cyfun hyn yn darparu ar gyfer plant 11-18 oed.

Mae gan Fasn Caerffili Brif Lyfrgell yn nhref Caerffili, Llyfrgelloedd Pentref yn Abertridwr a Bedwas, a Llyfrgelloedd Cysylltiedig â'r Gymuned yn Llanbradach a Machen.

Mae gan Fasn Caerffili hefyd nifer o ganghennau Swyddfa'r Post yn y pentrefi llai, sy'n cynnig mynediad amgen i wasanaethau bancio lle nad oes canghennau banc.

Mae Canolfan Hamdden Sant Cenydd wedi'i lleoli fel rhan o safle'r Ysgol Gyfun gyda neuadd chwaraeon amlbwrpas ac ystafell ddigwyddiadau. Mae Canolfan Hamdden Bedwas wedi'i lleoli gerllaw Ysgol Uwchradd Bedwas ac

mae'n cynnwys cae AstroTurf, ystafell ffitrwydd, ystafell ddigwyddiadau, neuadd ddawns a chaeau pêl-droed. Mae gan Ganolfan Hamdden Caerffili ym Mharc Virginia bwl nofio pedair lôn, ystafell ffitrwydd, cyrtiau badminton a sboncen, neuadd chwaraeon fawr, stiwdio ddawns ac ystafell iechyd.

4.4 Trosedd a diogelwch cymunedol

Os nad yw pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi a'r lleoedd y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt, efallai na fydd ganddynt yr hyder na'r awydd i gael mynediad at wasanaethau neu gymryd rhan ym mywyd y gymuned.

Roedd gan 21 o'r 35 ACEHI ym Masn Caerffili gyfraddau **Difrod Troseddol** uwch na chyfartaledd Cymru o 1.14 achos fesul 100 o'r boblogaeth. Roedd gan ddwy ACEHI (Sant Iago 4 a Sant Iago 3) gyfraddau dros deirgwaith yn fwy na chyfartaledd Cymru ar gyfer Difrod Troseddol¹⁸.

14 o'r 35 ACEHI ym Masn Caerffili gyfradd **Troseddau Treisgar** uwch na chyfartaledd Cymru o 2.67 o achosion fesul 100 o'r boblogaeth. Roedd gan dair ACEHI (Martin Sant 2, Sant Iago 4 a Sant Iago 3) gyfraddau dros un a hanner gwaith cyfartaledd Cymru ar gyfer Troseddau Treisgar¹⁹.

Roedd gan dri o'r 35 ACEHI ym Masn Caerffili gyfradd drosedd **Ymddygiad Gwrthgymdeithasol** uwch na chyfartaledd Cymru o 2.55 o achosion fesul 100 o'r boblogaeth. Y rhain oedd Martin Sant 2, Sant Iago 4 a Morgan Jones 2²⁰.

Roedd gan 15 o 27 ACEHI ym Masn Caerffili gyfradd **fyrgleriaeth** uwch na chyfartaledd Cymru o 0.98 achos fesul 100 o'r boblogaeth (nid oedd y wybodaeth ar gael yn yr 8 ACEHI arall). Roedd gan dair ACEHI (Sant Iago 4, Martin Sant 2 a Martin Sant 3) gyfradd Byrgleriaeth o dros un a hanner gwaith cyfartaledd Cymru ar gyfer Byrgleriaeth²¹.

Roedd gan 11 o 26 ACEHI ym Masn Caerffili gyfradd **Lladrata** uwch na chyfartaledd Cymru o 0.53 o achosion fesul 100 o'r boblogaeth (nid oedd y wybodaeth ar gael yn y 9 ACEHI arall. Dim ond dwy ACEHI (Sant Iago 1 a

Bedwas Tretomos a Machen 5) oedd â chyfradd lladrata o dros un a hanner gwaith cyfartaledd Cymru ar gyfer Lladrata²².

Roedd gan naw o'r 24 ACEHI ym Masn Caerffili gyfradd **Achosion Tân** uwch na chyfartaledd Cymru o 0.38 o achosion fesul 100 o'r boblogaeth (nid oedd y wybodaeth ar gael yn yr 11 ACEHI arall). Roedd gan ddwy ACEHI (Sant Iago 1 a Sant Iago 3) gyfraddau dros ddwywaith a hanner cyfartaledd Cymru ar gyfer Achosion Tân²³.

Bydd mynd i'r afael ag achosion trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cefnogi mwy o gydlyniant yng nghymunedau Basn Caerffili.

4.5 Amddifadedd

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yw mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o dlodi cymharol. Mae'n nodi'r cymunedau hynny (mewn ardal ddaearyddol ACEHI), sydd â'r crynodiadau uchaf o wahanol fathau o amddifadedd, ynghyd ag amddifadedd cyffredinol. Mae MALIC yn rhestru holl ACEHiau Cymru o'r mwyaf (safle 1) i'r lleiaf difreintiedig (safle 1909).

Mae safleoedd parth MALIC ar gael ar gyfer pob ACEHI yng Nghymru, ac mae'r wybodaeth gyferbyn a throsodd yn crynhoi'r ACEHI sy'n perthyn i'r categorïau mwyaf difreintiedig ym Masn Caerffili, ar gyfer Amddifadedd Cyffredinol a rhai parthau penodol.

Amddifadedd cyffredinol	
	Mae pedair ACEHI yn y categori 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer Amddifadedd Cyffredinol ym Masn Caerffili – Sant Iago 3 (safle 3 o 1909 yng Nghymru), Bedwas Tretomos a Machen 6 (safle 43), Penyrheol 8 (safle 90) a Sant Iago 4 (safle 113).

Asesiad Llesiant Lleol Basn Caerffili

Parth Iechyd	Mae tair ACEHI yn y categori 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y Parth Iechyd ym Masn Caerffili – Sant Iago 3 (safle 7), Bedwas Tretomos a Machen 6 (safle 82) a Phenyrrheol 8 (safle 110).
Parth Diogelwch Cymunedol	Mae dwy ACEHI yn y categori mwyaf difreintiedig ar gyfer y Parth Diogelwch Cymunedol ym Masn Caerffili – Sant Iago 4 (safle 66) a Sant Iago 3 (safle 75).
Parth Incwm	Mae pedair ACEHI yn y categori 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y Parth Incwm ym Masn Caerffili – Sant Iago 3 (safle 8), Bedwas Tretomos a Machen 6 (safle 19), Penyrrheol 8 (safle 72) a Sant Iago 4 (safle 126) .
Parth Cyflogaeth	Mae pedair ACEHI yn y categori 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y Parth Cyflogaeth ym Masn Caerffili – Sant Iago 3 (safle 4), Bedwas Tretomos a Machen 6 (safle 48), Sant Iago 4 (safle 96) a Phenyrrheol 8 (safle 119) .

Mae tabl yn dangos y safleoedd parth ar gyfer pob ACEHI ym Masn Caerffili i'w weld ar Dudalennau 12 a 13. Mae hyn yn amlygu bod sawl ACEHI ym Masn Caerffili yn ymddangos yn gyson yn y categori 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer amddifadedd cyffredinol a nifer o'r parthau eraill - Sant Iago 3 a Sant Iago 4 (Stad Parc Lansbury), Bedwas Tretomos a Machen 6 (Ystâd Graig-y-rhaca) a Phenyrrheol 8 (Ystâd Penyrrheol).

Asesiad Llesiant Lleol Basn Caerffili

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 - Basn Caerffili

Enw ACEHI	Amddifadedd Cyffredinol	Parth Incwm	Parth Cyflogaeth	Parth Iechyd	Parth Addysg	Parth Mynediad i Wasanaethau	Parth Tai	Parth Diogelwch Cymunedol	Parth Amgylchedd Ffisegol
Cwm Aber 1	713	473	731	519	587	1457	832	1104	1384
Cwm Aber 2	633	537	562	510	480	1638	504	1343	1047
Cwm Aber 3	340	278	343	279	438	1072	217	886	1143
Cwm Aber 4	358	319	384	336	369	1105	134	614	1636
Bedwas Tretomos a Machen 1	1652	1571	1586	1239	1465	1180	1717	1457	881
Bedwas Tretomos a Machen 2	293	209	221	229	373	1460	709	756	905
Bedwas Tretomos a Machen 3	1665	1574	1687	1329	1396	1824	1752	1330	323
Bedwas Tretomos a Machen 4	1638	1433	1378	1538	1461	1663	1263	1280	908
Bedwas Tretomos a Machen 5	1054	925	846	723	1120	1817	1042	705	580
Bedwas Tretomos a Machen 6	43	19	48	82	41	502	808	425	1507
Bedwas Tretomos a Machen 7	826	664	779	845	617	1474	631	622	1073
Llanbradach 1	1138	1103	895	909	939	1317	1301	1344	387
Llanbradach 2	987	940	1035	953	532	1821	496	660	794
Llanbradach 3	453	337	504	388	414	1123	697	686	655
Morgan Jones 1	1075	1002	1085	636	1230	1024	1454	530	565
Morgan Jones 2	237	288	337	214	167	517	1013	294	232
Morgan Jones 3	1169	1179	1093	1111	954	1792	1321	687	87
Morgan Jones 4	926	1008	976	962	1239	1668	339	367	75
Penyrheol 1	407	446	267	434	240	1181	1066	734	563
Penyrheol 2	1833	1833	1761	1747	1651	1647	1267	1698	858
Penyrheol 3	536	450	646	537	579	1078	758	697	152
Penyrheol 4	242	254	256	261	241	550	807	545	297
Penyrheol 5	1374	1260	947	1056	923	1458	1508	1403	1575
Penyrheol 6	1675	1470	1531	1097	1550	1820	1882	1488	913
Penyrheol 7	1340	1078	1125	1018	1368	1403	1629	1431	312
Penyrheol 8	90	72	119	110	46	531	1207	596	1015

Asesiad Llesiant Lleol Basn Caerffili

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 - Basn Caerffili

Enw ACEHI	Amddifadedd Cyffredinol	Parth Incwm	Parth Cyflogaeth	Parth Iechyd	Parth Addysg	Parth Mynediad i Wasanaethau	Parth Tai	Parth Diogelwch Cymunedol	Parth Amgylchedd Ffisegol
Sant Iago 1	1172	1212	1240	1443	1766	187	1170	328	855
Sant Iago 2	1496	1369	1257	1377	1457	1410	1376	1184	369
Sant Iago 3	3	8	4	7	24	470	701	75	82
Sant Iago 4	113	126	96	546	29	739	969	66	480
Martin Sant 1	1552	1778	1574	1217	1544	1436	1449	876	114
Martin Sant 2	739	682	946	651	848	1124	365	257	648
Martin Sant 3	1393	1320	1228	1171	1229	1185	1387	526	784
Martin Sant 4	1697	1703	1440	1855	1649	1595	1530	541	720
Martin Sant 5	1878	1829	1834	1892	1772	1867	1860	1652	601

Safle MALIC 1-1909

1-191: 10% mwyaf difreintiedig
192-382: 11-20% mwyaf difreintiedig
383-573: 21-30% mwyaf difreintiedig
574-955: 31-50% mwyaf difreintiedig
956-1909: 50% lleiaf difreintiedig

4.6 Iechyd

Mae iechyd da yn agwedd bwysig ar lesiant pob unigolyn ym mhob cymuned, ond mae rhai heriau ym Masn Caerffili mewn perthynas â chyflogaeth, cludiant, tai, cyflawniad addysgol a lefelau amddifadedd sy'n debygol o gael effaith ar iechyd, ac o bosibl yn cyfrannu at neu'n cael eu hachosi gan iechyd gwael.

Er bod iechyd hunangofnodedig yn gyffredinol dda, mae cyfradd y marwolaethau cynamserol yn uwch na'r gyfradd gyfartalog ar gyfer Cymru ac mae gan 23.2% o'r bobl sy'n byw ym Masn Caerffili salwch cyfyngus hirdymor.

Salwch cyfyngus hirdymor	Dywedodd 23.2% o drigolion ym Masn Caerffili fod eu gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu ychydig neu'n sylweddol oherwydd eu hiechyd. Mae'r ffigur hwn ychydig yn is na chyfartaledd Bwrdeistref Sirol Caerffili (25.4%), ac ychydig yn uwch na'r cyfartaledd (22.7%) yng Nghymru gyfan ²⁴ .
Cyfradd marwolaethau pob achos	Roedd y gyfradd marwolaethau o bob achos yn yr ACEHGau ym Masn Caerffili dros y cyfnod 2017-19 rhwng 886.0 fesul 100,000 o'r boblogaeth yng Nghaerffili 019 (Llanbradach a Phenyrrheol) a 1339.9 yng Nghaerffili 018 (Cwm Aber), o gymharu â'r Fwrdeistref Sirol (1103.7) a chyfraddau cyfartalog Cymru (1031.2).
Marwolaeth gynamserol	Mae cyfradd y marwolaethau cynamserol (o dan 75) ym Masn Caerffili yn amrywio rhwng 329.7 fesul 100,000 o'r boblogaeth yng Nghaerffili 024 (De Caerffili) a 479.3 yng Nghaerffili 018 (Cwm Aber), sy'n sylweddol uwch na'r gyfradd gyfartalog ar gyfer Cymru (382.4) ²⁵ .

Cyflyrau cronig a gofnodwyd gan Feddyg Teulu	Mae canran y trigolion â chyflwr cronig a gofnodwyd gan feddyg teulu ym Masn Caerffili yn amrywio o 12.1% yng Nghaerffili 021 (Machen) i 17.5% yng Nghaerffili 018 (Cwm Aber). Mae'r ganran mewn pump o'r saith ACEHG yn y Fwrdeistref Sirol yn uwch na chyfartaledd Cymru o 14.3% ²⁶ .
Cyflwr iechyd meddwl a gofnodwyd gan Feddyg Teulu	Mae canran y trigolion â chyflwr iechyd meddwl a gofnodwyd gan feddyg teulu ym Masn Caerffili yn amrywio o 20.1% yng Nghaerffili 024 (De Caerffili) i 25.9% yng Nghaerffili 020 (Bedwas a Thretomos). Unwaith eto, mae'r ganran mewn pump o'r saith ACEHG yn y Fwrdeistref Sirol yn uwch na chyfartaledd Cymru o 23.2% ²⁷ .

Gall disgwyliad oes a disgwyliad oes iach amrywio'n sylweddol hyd yn oed o fewn ardaloedd cymharol fach, yn enwedig lle mae cymysgedd o ardaloedd mwy difreintiedig a llai difreintiedig. Ym Masn Caerffili, ar gyfer dynion adeg geni roedd disgwyliad oes iach yn amrywio o 54.8 mlynedd yn ward Cwm Aber i 64.1 mlynedd yn ward Martin Sant, sef bwlch o 9.3 mlynedd. Roedd y ffigurau ar gyfer pob ward ac eithrio Martin Sant yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru. Ar gyfer menywod, roedd disgwyliad oes iach yn amrywio o 57.2 mlynedd yn ward Cwm Aber i 66.3 o flynyddoedd yn ward Martin Sant, bwlch o 9.1 mlynedd. Unwaith eto, ar gyfer pob ward ac eithrio Martin Sant roedd y ffigurau yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru²⁸.

Bydd mynd i'r afael ag achosion blaenllaw marwolaethau a salwch cynamserol, gohirio eiddilwch a helpu oedolion o oedran gweithio i fyw

Asesiad Llesiant Lleol Basn Caerffili

bywydau iachach am gyfnod hwy, drwy atal ymddygiadau sy'n niweidio iechyd a hybu lles meddwl, yn helpu i greu Basn Caerffili iachach.

Mae Ysbyty Ystrad Fawr (Ysbyty Cyffredinol Lleol Gwell) wedi'i leoli yng Ngorllewin Canol y Cymoedd yn Ystrad Mynach. Mae ganddi Uned Mân Anafiadau ac Uned Asesu Meddygol, ac mae'n darparu Llawfeddygaeth Ddydd, Gwasanaethau Adsefydlu a Therapi, Gwasanaethau Diagnostig, amrywiaeth eang o Glinigau Cleifion Allanol Arbenigol, Uned Henoed Eiddil ar gyfer gofalu am bobl hŷn, 164 o welyau cleifion mewnol, Cleifion Allanol Plant. apwyntiadau, gwasanaethau Mamolaeth a Sgrinio Coluddion. Mae Ysbyty Athrofaol y Grange wedi'i leoli yng Nghwmbrân (o fewn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan) ac mae'n darparu Gwasanaethau Arbenigol, Trawma a Gofal Critigol ar gyfer Gwent gyfan.

Dywedodd 23% o drigolion Basn Caerffili fod eu hiechyd yn weddol, yn wael neu'n wael iawn. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd o 25.2% ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, ond ychydig yn uwch na'r cyfartaledd o 22.2% yng Nghymru gyfan²⁹.

Mae **Rhwydweithiau Lles Integredig (RhLII)** yn ymwneud â chydweithio'n well ac yn fwy effeithiol, i gefnogi llesiant cymunedol er mwyn parhau i wella iechyd a llesiant ein cymunedau, yn awr ac yn y dyfodol. Maent yn cynnwys partneriaid statudol, trydydd sector a chymunedol yn gweithio gyda'i gilydd i benderfynu ar y ffordd orau o gefnogi a chryfhau llesiant yn ein cymunedau wrth i'r sefyllfa bresennol esblygu a ninnau i gyd addasu i fywyd ar ôl Covid-19. I gael rhagor o wybodaeth am waith RhLII, ewch i'r wefan hon [Rhwydweithiau Lles Integredig Gwent \(iwngwent.cymru\)](http://iwngwent.cymru).

4.7 Tai ac aelwydydd

Ystyriaeth allweddol ar gyfer dyfodol Basn Caerffili yw sicrhau bod y math iawn o dai ar gael i gefnogi anghenion y gymuned. Os caiff tai'r dyfodol eu gwella o ran effeithlonrwydd ynni, bydd cartrefi'n gynhesach, yn rhatach i'w rhedeg ac yn cynhyrchu llai o allyriadau carbon. Bydd angen i gartrefi'r

dyfodol allu gwrthsefyll hinsawdd sy'n newid. Bydd y tai sy'n cael eu hadeiladu yn awr yn etifeddiaeth i genedlaethau'r dyfodol.

Stoc tai	Mae 39.9% o eiddo ym Masn Caerffili yn dai pâr o gymharu â chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol o 39.2% a chyfartaledd Cymru o 31%. Roedd 31% o eiddo yn y categori tai teras, o gymharu â chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol o 36.1% a chyfartaledd Cymru o 27.8%. Roedd 19.4% o eiddo yn y categori ar wahân, o gymharu â chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol o 16.1% a chyfartaledd Cymru o 27.7%.
Band treth y cyngor	Mae 32.2% o dai ym Masn Caerffili wedi'u graddio fel band Treth y Cyngor A neu B (y categorïau tai â'r gwerth isaf) o gymharu â ffigur o 52.6% yn y Fwrdeistref Sirol yn ei chyfanrwydd. Mae bron i 50% yn cael ei raddio fel band Treth y Cyngor C neu D, o gymharu â ffigur o 35% yn y Fwrdeistref Sirol yn ei chyfanrwydd.
Daliadaeth	Mae 69.9% o dai ym Masn Caerffili mewn perchnogaeth lwyr neu gyda morgais, o gymharu â ffigur o 69.3% yn y Fwrdeistref Sirol gyfan a 67.4% yng Nghymru. Mae 18.2% yn cael ei rentu gan yr awdurdod lleol neu gymdeithas dai, o gymharu â 18.7% yn y Fwrdeistref Sirol gyfan a 16.4% yng Nghymru.

Ym MALIC 2019, roedd gan 17 o'r 35 ACEHI ym Masn Caerffili ganrannau uwch na chyfartaledd Cymru (5.5%) o bobl yn byw ar aelwydydd gorlawn, gyda Sant Iago 3 (13%) a Bedwas Tretomos a Machen 6 (12.3%) â chanrannau mwy na dwywaith cyfartaledd Cymru.

Roedd gan naw o'r 35 ACEHI ym Masn Caerffili ganrannau uwch na chyfartaledd Cymru (19.7%) ar gyfer y tebygolrwydd o dai o ansawdd gwael, a'r tri â'r canrannau uchaf oedd Cwm Aber 3 (29.1%), Martin Sant 2 (28%) a Llanbradach 2 (27.7%)³⁰.

Roedd gan 10 o'r 35 ACEHlau ym Masn Caerffili ganrannau uwch na chyfartaledd Cymru (18%) ar gyfer y tebygolrwydd o dai yn cynnwys peryglon difrifol, a'r tri â'r canrannau uchaf oedd Cwm Aber 3 (27.1%), Llanbradach 2 (26%) a Martin Sant 2 (24.1%)³¹.

Roedd gan 12 o'r 35 ACEHI ym Masn Caerffili ganrannau uwch na chyfartaledd Cymru (3.2%) ar gyfer y tebygolrwydd y byddai tai mewn cyflwr gwael, a'r tri uchaf oedd Martin Sant 2 (6%), Llanbradach 2 (5.7%) ac Aber. Y Fali 3 (5.2%)³².

Mae **Safon Ansawdd Tai Cymru** yn gyfres o safonau y mae'n rhaid i bob cartref Cyngor a Chymdeithas Tai yng Nghymru eu bodloni. Mae'r safon yn nodi y dylai pob cartref fod mewn cyflwr da, yn ddiogel, wedi'i wresogi'n ddigonol, yn gyfoes o ran ceginau ac ystafelloedd ymolchi, wedi'i reoli'n dda, mewn amgylcheddau deniadol a diogel ac yn addas ar gyfer aelwydydd penodol. Gan fod y Cyngor wedi cadw ei stoc tai, mae'n gyfrifol am godi'r stoc i'r safon hon.

Mae tua £260 miliwn wedi'i wario ar draws y Fwrdeistref Sirol yn y blynyddoedd diwethaf i gyrraedd y safon hon. Mae gwaith mewnol wedi cynnwys ceginau, ystafelloedd ymolchi, gwresogi ac ailweirio trydanol newydd. Mae gwaith allanol wedi cynnwys drysau newydd, ffenestri, landeri/pibellau dŵr ac ail-doi eiddo. Mae rhaglen gwella amgylcheddol hefyd wedi'i chyflwyno fel rhan o SATC, sy'n edrych ar ardaloedd y tu allan i gwrtail tai cyngor.



Roedd amrywiad eithaf sylweddol yn y cynnydd canolrifol mewn prisiau a dalwyd am dai mewn gwahanol wardiau ym Masn Caerffili rhwng Mawrth 2019 a Mawrth 2021. Yn ward Sant Iago, cynyddodd y pris canolrifol 34.2% i £210,000, ac yn ward Martin Sant cynyddodd y pris canolrifol 17.1% i £205,000. Ond ar y llaw arall, cynyddodd y pris canolrifol yn ward Bedwas Tretomos a Machen 8.3% i £170,000.

Yr incwm blynyddol cyfartalog ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yw £29,289, sy'n golygu bod y gymhareb pris tŷ i incwm dros 7:1 yn ward Sant Iago, a thros 4:1 yn ward Cwm Aber (y ward â'r pris canolrifol isaf ym mis Mawrth) 2021). Mae hyn yn golygu y byddai'n rhaid i berson sengl wario dros 7 gwaith ei gyflog i allu prynu eiddo yn ward Sant Iago, sy'n debygol o olygu bod llawer o bobl sengl yn cael eu hatal rhag prynu eiddo heb gymorth, megis cymorth gan deulu neu berchnogaeth a rennir.

Mae diffinio'r angen am dai yn gymhleth a bydd sawl ffactor yn dylanwadu ar lefelau cyffredinol y galw.

Bu datblygiadau tai marchnad a fforddiadwy sylweddol ym Masn Caerffili yn y blynyddoedd diwethaf, gyda llawer o unedau newydd yn cael eu darparu ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol yn unol â strategaeth y CDLI mabwysiedig. Dros y 15 mlynedd diwethaf, mae 1,660 o unedau wedi eu cwblhau ar safleoedd mawr (10 annedd neu fwy). Mae yna alw yn y farchnad am dai newydd yn yr ardal.

Mae Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2018 yn dangos gofyniad ychwanegol ar gyfer datblygu tai cymdeithasol anghenion cyffredinol 1 ystafell wely, 2 ystafell wely a 4 gwely, a galw bychan am berchentyaeth cost isel. Y gofyniad uchaf am dai cymdeithasol yw tai anghenion cyffredinol 1 ystafell wely.

5 Llesiant economaidd

5.1 Addysg

Gall profiadau plentyndod bennu datblygiad hirdymor a chyflawniadau cyffredinol bywyd.

Ar gyfer Basn Caerffili, mae parth Addysg MALIC 2019 yn dangos y canlynol:

Parth Addysg	Mae pump ACEHI ym Masn Caerffili yn y 10% o'r categori mwyaf difreintiedig ar gyfer y parth Addysg – Sant Iago 3 (safle 24), Sant Iago 4 (safle 29), Bedwas Tretomos a Machen 6 (safle 41), Penyrheol 8 (safle 46) a Morgan Jones 2 (safle 167).
---------------------	--

Mae gan sawl ACEHI (Sant Iago 3, Bedwas Tretomos a Machen 6 a Phenyrrheol 8) grynodiad uchel o sawl parth amddifadedd gwahanol – amddifadedd cyffredinol ynghyd ag Incwm, Cyflogaeth, Iechyd ac Addysg. Mae hyn yn dweud wrthym y gallai ystod o ffactorau economaidd-gymdeithasol fod yn cyfrannu at fylchau cyrhaeddiad addysgol rhwng unigolion a chymunedau.

Bydd sicrhau bod pob plentyn yn cael addysg o ansawdd da a chodi dyheadau cenedlaethau o bobl ifanc yn y dyfodol yn cefnogi eu llesiant economaidd hirdymor.

Mae'r data'n dangos bod cyfran y rhai sy'n gadael Cyfnod Allweddol 4 sy'n mynd i Addysg Uwch yn amrywio rhwng 5.8% yn Sant Iago 3 i 57.7% yn Martin Sant 4. Mae hefyd yn dangos bod cyfran yr oedolion 25 i 64 oed heb unrhyw gymwysterau yn amrywio o 5.3% yn Martin Sant 5 i 47.9% yn Sant Iago 3³³. I rai pobl ifanc, gall eu hamgylchiadau ariannol a chost ac argaeledd cludiant fod yn rhwystrau mawr rhag mynd i addysg uwch.

Mae angen cefnogi ac annog cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol o bobl ifanc i'w hatal rhag dod yn NEET (ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant).

Absenoldeb mynych o'r ysgol

Mae absenoldeb mynych o ddisgyblion ysgol ym Masn Caerffili yn amrywio o 1.4% ym Mhenyrheol 7 i 14.3% ym Mhenyrheol 8³⁴. (Mae'r dangosydd hwn yn mesur canran y disgyblion cynradd ac uwchradd sy'n colli mwy na 15% o sesiynau ysgol, ac mae'n seiliedig ar gyfartaledd tair blynedd)

5.2 Gwaith a sgiliau

Bydd gwella sgiliau lleol trwy gynllunio'r gweithlu, hyfforddiant, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli yn helpu cenedlaethau'r dyfodol i ddod o hyd i waith sy'n gweddu, sy'n werth chweil ac sy'n osgoi tlodi mewn gwaith.

Gweithgarwch / anweithgarwch economaidd




Roedd 40,646 o drigolion 16-74 oed ym Masn Caerffili ar adeg Cyfrifiad 2011³⁵. O'r rhain, roedd 26,961 yn economaidd weithgar:

- roedd 52.6% yn gyflogedig (49.5% yng Nghymru)
- Roedd 6.5% yn hunangyflogedig (8.6% yng Nghymru)
- Roedd 4.9% yn ddi-waith (4.3% yng Nghymru).

Roedd 13,685 o drigolion yn economaidd anweithgar ym Masn Caerffili:

- Roedd 15.6% wedi ymddeol (16.1% yng Nghymru)
- Roedd 4.4% yn gofalu am eu cartref neu deulu (3.8% yng Nghymru)

Asesiad Llesiant Lleol Basn Caerffili


	<ul style="list-style-type: none"> Roedd 7.4% yn hirdymor sâl neu'n anabl (6.3% yng Nghymru) 																		
<p>Sgiliau</p> 	<p>Dangosir y lefel uchaf o gymwysterau ar gyfer trigolion y Fwrdeistref Sirol yng Nghyfrifiad 2011 isod³⁶.</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th></th> <th>Basn Caerffili</th> <th>Cymru</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Dim cymwysterau</td> <td>28.1%</td> <td>25.9%</td> </tr> <tr> <td>Lefel 1</td> <td>14.5%</td> <td>13.3%</td> </tr> <tr> <td>Lefel 2</td> <td>16.5%</td> <td>15.7%</td> </tr> <tr> <td>Lefel 3+</td> <td>33.1%</td> <td>36.8%</td> </tr> <tr> <td>Prentisiaeth</td> <td>4.2%</td> <td>3.9%</td> </tr> </tbody> </table>		Basn Caerffili	Cymru	Dim cymwysterau	28.1%	25.9%	Lefel 1	14.5%	13.3%	Lefel 2	16.5%	15.7%	Lefel 3+	33.1%	36.8%	Prentisiaeth	4.2%	3.9%
	Basn Caerffili	Cymru																	
Dim cymwysterau	28.1%	25.9%																	
Lefel 1	14.5%	13.3%																	
Lefel 2	16.5%	15.7%																	
Lefel 3+	33.1%	36.8%																	
Prentisiaeth	4.2%	3.9%																	
Diwydiant cyflogaeth	Yng Nghyfrifiad 2011 y diwydiant cyflogaeth mwyaf ym Masn Caerffili oedd Cyfanwerthu a Manwerthu: Atgyweirio Cerbydau Modur a Beiciau Modur ar 15.3% (15.6% yng Nghymru). Dilynwyd hyn gan Gweithgynhyrchu ar 12.7% (10.5% yng Nghymru) a Gweithgareddau Iechyd Dynol a Gwaith Cymdeithasol ar 12.4% (14.5% yng Nghymru) ³⁷ .																		
Prif safleoedd cyflogaeth	Mae nifer o safleoedd cyflogaeth o fewn Basn Caerffili yn Nhŷ Bedwas, Pantglas (Bedwas), Pontywindy, Greenway a stadau diwydiannol y Gorllewin, ynghyd â pharciau busnes Caerffili a Threcenydd. Mae Parc Manwerthu Gallagher wedi'i leoli ar gyrion tref Caerffili ac mae'n gartref i nifer o fanwerthwyr cartref a bwyd cenedlaethol. Mae yna hefyd nifer fawr o siopau manwerthu yng nghanol																		

tref Caerffili. Mae'r rhain i gyd yn darparu cyfleoedd cyflogaeth i drigolion lleol.

Mae pandemig Covid-19 yn debygol o fod wedi cael effaith sylweddol ar batrwm cyflogaeth yn lleol, gyda'r effeithiau mwyaf yn y sectorau Manwerthu, Lletygarwch, Twristiaeth ac (i raddau) Adeiladu.

Bydd yr ardaloedd mwyaf llwyddiannus yn gallu cynnig amrywiaeth o swyddi o safon mewn gwahanol sectorau, ac mae'r economi sylfaenol hefyd yn dod yn fwyfwy pwysig (yr economi sylfaenol sy'n darparu'r gwasanaethau bob dydd y mae ein trigolion a'n busnesau yn dibynnu arnynt, megis ynni, bwyd a gofal iechyd, ac mae ganddi ran bwysig i'w chwarae wrth gyfrannu at wydnwch hirdymor yr economi leol). Bydd cael cyflogaeth o ansawdd da sy'n talu'n dda yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles unigolyn.

Mae Bwrdeistref Sirol Caerffili, ynghyd â naw ardal awdurdod lleol arall yn Ne-ddwyrain Cymru yn rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PRC), sydd dros gyfnod o 10 mlynedd yn ceisio cyflawni set o dargedau yn y rhanbarth gan gynnwys 25,000 o swyddi newydd erbyn 2036, trosoledd o £4 biliwn o fuddsoddiad gan y sector preifat a sicrhau twf economaidd. Mae wyth sector blaenoriaeth wedi'u nodi fel rhai pwysig i'r rhanbarth wrth symud ymlaen.




Ffigur 4: Sectorau blaenoriaeth Dinas-Ranbarth Caerdydd

Asesiad Llesiant Lleol Basn Caerffili

Un o'r heriau allweddol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol gyfan fydd sicrhau bod y sectorau cyhoeddus, preifat a chymunedol yn cysylltu â Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd lle bo'n briodol, fel bod yr ardal yn elwa cymaint â phosibl ar y buddsoddiad a'r twf economaidd a fydd yn digwydd yn y blynyddoedd i ddod.

6 Llesiant amgylcheddol



Ein aer, tir, dŵr, bywyd gwylt, planhigion a phriddoedd sy'n darparu ein hanghenion mwyaf sylfaenol, gan gynnwys bwyd, pren, tanwydd a hamdden. Maent hefyd yn darparu gwasanaethau llai gweladwy gan gynnwys rheoli dŵr, cefnogi pryfed peillio a storio carbon.

Mae'r hen ddiwydiannau mwynloddio a haearn a'r safleoedd diwydiannol trwm cysylltiedig wedi cael effaith fawr ar dirwedd Bwrdeistref Sirol Caerffili. Lleolwyd pyllau glo ledled y Fwrdeistref Sirol, gyda deugain o byllau glo yng Nghwm Rhymini Uchaf yn unig erbyn dechrau'r 20fed ganrif. Mae'r diwydiannau hyn wedi cyfrannu at etifeddiaeth iechyd gwael yn y Fwrdeistref Sirol. Erbyn diwedd yr 20fed Ganrif, yn dilyn cau'r holl byllau glo, cafodd llawer o weddillion y diwydiannau hynny eu hadennill neu eu symud a'u tirlunio i ddileu'r dystiolaeth weledol o orffennol diwydiannol y Fwrdeistref Sirol. Mae'r etifeddiaeth ddiwydiannol hon o'r gorffennol yn dangos pwysigrwydd cynnal a gwella treftadaeth naturiol y Fwrdeistref Sirol, er mwyn gwella ansawdd bywyd a chreu amgylchedd iachach i bobl leol. Fodd bynnag, dylid nodi hefyd bod llawer o'r safleoedd diffaith a halogedig sy'n weddill yn cynnwys tirweddau ecolegol pwysicaf y Fwrdeistref Sirol.

Mae glasu cymoedd De Cymru wedi bod yn drawsnewidiol – lle safai pennau pyllau glo a gweithfeydd mwynloddio ar un adeg, mae parciau gwledig a choedwigaeth bellach yn cynnig amgylchedd gwyrdd ac iach sy'n denu miloedd o drigolion a thwristiaid bob blwyddyn. Mae'r dirwedd yn

cael ei chynnal, ei gwarchod a'i gwella gan ffermwyr, mentrau a grwpiau, gan gefnogi systemau ecolegol cysylltiedig, bioamrywiaeth gyfoethog, lliniaru yn erbyn newid yn yr hinsawdd a darparu'r bwyd ar ein platiau.

Mae'r amgylchedd byw naturiol yn arbennig yn helpu i godi llesiant meddwl pobl, yn ogystal â darparu campfa werdd am ddim i wella iechyd corfforol pobl. Mae hyn yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol o ran cynyddu hyd oes iach, lleihau nifer yr achosion o glefydau cronig, gan gynnwys clefyd cardiofasgwlaidd, rhai mathau o ganser, Diabetes math 2 ac osteoporosis.

Mae Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn hyrwyddo tirwedd eiconig a phobl Cymoedd De Cymru, gan weithio gyda phartneriaid i wneud y mwyaf o'r amgylchedd a'r buddion cymdeithasol i gymunedau lleol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae Bwrdeistref Sirol Caerffili gyfan yn rhan o Barc Rhanbarthol y Cymoedd³⁸.

Ffigur 4: Parc Glan yr Afon, Bedwas

Mae Castell Caerffili yn un o'r tair ardal o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili sy'n un o 'Byrth Darganfod' 12 Parc Rhanbarthol y Cymoedd. Mae'r rhain yn cynnig ffyrdd i mewn i'r dirwedd a'r dreftadaeth sy'n rhan o stori'r cymoedd ac yn lleoedd lle gall pobl fynd allan, cael hwyl, archwilio'r dirwedd a darganfod mwy am natur.

Er ei fod yn un o'r manau gwyrdd llai yn y Fwrdeistref Sirol, mae trigolion lleol yn gwneud defnydd helaeth o **Barc Glan yr Afon ym Medwas**. Gyda llwybrau ag arwyneb pob tywydd wedi'u lefelu lle gall ymwelwyr fwynhau taith gerdded ar hyd glan yr afon gyda gwenoliaid yr haf yn gwmni neu flasu'r dolydd llawn blodau yn llawn trychfilod. Mae'r werddon hon o

Asesiad Llesiant Lleol Basn Caerffili

gaeau bach a gwrychoedd, ac olion hen dirwedd ffermio, yn cynnig heddwoch a llonyddwch i ffwrdd o'r byd prysur gerllaw. Mae Parc Glan yr Afon wedi'i leoli ar Lwybr Glan yr Afon Rhymni a Llwybr Celtaidd (Llwybr 4) y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol, felly mae'n lle gwych i aros ennyd ar y llwybrau hirach hyn.

Wedi'i osod allan fel maes hamdden cyhoeddus yn 1934, mae **Parc Morgan Jones** wedi'i gysegru er cof am Morgan Jones AS, Gwrthwynebydd Cydwybodol mwyaf nodedig Cwm Rhymni yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn ddeiliad Gwobr y Faner Werdd, mae Parc Morgan Jones yn ased sylweddol i amgylchedd Caerffili ac yn cael ei gydnabod fel canolbwynt pwysig ac yn destun balchder i'r dref. Mae arddangosiadau lliwgar y gwasarn trefol yn cyferbynnu a natur anffurfiol y cae blodau gwyllt, gan asio'r traddodiadol â'r modern. Gall plant ifanc fwynhau'r maes chwarae a'r pad sblasio dŵr, tra caiff plant hŷn eu denu i'r parc sglefrio a'r ardal gemau amldeffnydd. Mae yna hefyd gae pêl-droed, cae criced, cyrtiau tennis, lawnt fowlio ac offer campfa awyr agored amlorsaf.

Mae **Taith Gerdded Gylchol Afon Rhymni** yn gylchdaith 9 milltir o amgylch ardal canol dyffryn Afon Rhymni, gan fynd trwy bentrefi Machen, Draethen a Llanfihangel-y-fedw.

Mae **Taith Gerdded Glan yr Afon Rhymni** yn daith linellol 32 milltir o hyd sy'n ymdroelli ar hyd llawr Cwm Rhymni, gan ddilyn yr afon o'i blaenddyfroedd i'r gwastadeddau deheuol. Mae'r daith gerdded yn rhan o Barc Rhanbarthol y Cymoedd, rhwydwaith o gyfleusterau i ymwelwyr a llwybrau gweithgareddau cefn gwlad hygyrch ar draws y Cymoedd. Mae Rhan 4 yn rhedeg o Bwll-y-pant i Ddraethen.

Mae **Llwybr Efail Machen** yn daith gylchol 3 milltir o hyd o amgylch pentrefi tawel a chefn gwlad Machen a Ty'n-y-coedcau.

Ffigur 5: Parc Morgan Jones, Caerffili

Yn 2021, mewn partneriaeth a gefnogir gan y Rhwydweithiau Llesiant Integredig a Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth (RhGC) Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Pharc Rhanbarthol y Cymoedd, cynhaliwyd cynllun peilot 'Presgripsiwn Natur' newydd, a fydd yn darparu ffordd ychwanegol ymlaen ar gyfer cefnogi cymunedau. Iechyd a lles drwy gysylltu trigolion â gweithgareddau yn yr amgylchedd naturiol o'u hamgylch.

7 Llesiant diwylliannol

Mae diwylliant yn eang ac yn hollgynhwysol, yn cwmpasu credoau, arferion, nodweddion a hunaniaeth a rennir ac wedi'i ddiffinio gan bopeth gan gynnwys iaith, traddodiad, treftadaeth, normau cymdeithasol, a chymryd rhan mewn dawnys, cerddoriaeth a'r celfyddydau a gweithgareddau hamdden eraill. Mae diwylliant hefyd yn cael ei ddylanwadu gan bobl yn symud i ardal a chynyddu amrywiaeth ddiwylliannol, gan arwain at dwf yn niwylliant yr ardal.

Mae'r gallu i siarad y Gymraeg yn cael ei weld gan lawer fel rhan fawr o ddiwylliant Cymru. Mae cyfran y bobl sy'n gallu siarad o leiaf rhywfaint o Gymraeg ym Masn Caerffili yn amrywio o 17.2% yn Sant Iago 4 i 32% yng Nghwm Aber 2. Dim ond pump o'r 15 ACEHI yng Ngorllewin Canol y Cymoedd sydd â ffigur islaw cyfartaledd y Fwrdeistref Sirol (11.2%) ac mae'r ffigur ym mhob ACEHI yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru (19%)³⁹.

Mae grwpiau oedran iau yn fwy tebygol o allu siarad Cymraeg, gan ddangos dylanwad addysg Gymraeg yn yr ardal.

Atyniadau allweddol	Yn 1268 dechreuodd Gilbert de Clare adeiladu Castell Caerffili , y castell mwyaf yng Nghymru a'r ail fwyaf i Gastell Windsor yn unig ym Mhrydain gyfan. Cyfunwyd waliau, tyrau a phorthdai anferth ag amddiffynfeydd dŵr gwasgarog i orchuddio cyfanswm o 30 erw, sydd deirgwaith maint Stadiwm Principality. Yn dilyn marwolaeth Llywelyn ap Gruffudd (Tywysog Cymru ar y pryd) trawsnewidiwyd y castell yn gartref palasaidd gyda pharc hela a llyn gogleddol. Mae'n debyg mai nodwedd fwyaf poblogaidd y castell heddiw yw Tŵr Gwyr Cymru ei hun, sy'n gwyrto hyd yn oed fwy na thŵr Pisa.
----------------------------	--

Mae **Amgueddfa Dreftadaeth Cwm Aber** yn Senghenydd. Mae wedi'i neilltuo i dreftadaeth gyfoethog Cwm Aber, gyda phwyslais arbennig ar y ddau fwynglawdd (Glofa Universal yn Senghenydd a Phwll Glo Windsor yn Abertridwr) a fu'n dominyddu'r Cwm ar un adeg. Yn benodol, mae'r gymuned wedi cyfrannu llawer iawn o ffotograffau, ynghyd ag amrywiaeth eang o arteffactau a phethau cofiadwy, sydd i gyd yn cael eu harddangos yn y cabinetau arddangos amrywiol ac ar y ddwy sgrin gyffwrdd ryngweithiol.

Dim ond taith gerdded fer o'r amgueddfa mae **Gardd Goffa a Chofeb Genedlaethol y Glowyr Cymru** sy'n coffáu'r 152 o lowyr a syrthiodd yn nhrychinebau pyllau glo ledled Cymru. Dadorchuddiwyd y gofeb ar ganmlwyddiant Trychineb Glofa'r Universal yn Senghenydd ar 14 Hydref 2013, ac mae'n cynnwys cerflun efydd, wal goffa a llwybr cof o fewn yr ardd goffa, gyda theilsen ceramig yn coffáu pob trychineb mwynloddio sydd wedi digwydd yng Nghymru.

Mae'r Fwrdeistref Sirol yn ddigon ffodus i feddu nifer fawr o sefydliadau celfyddydol cymunedol sy'n hanfodol i godi proffil y celfyddydau, denu ymwelwyr ac incwm ychwanegol i'r Fwrdeistref Sirol a darparu elfen gymdeithasol hanfodol i gymunedau lleol trwy gyfleoedd i bobl ddatblygu eu sgiliau neu berfformio. Mae bron i 100 o grwpiau celfyddydol yn cyfarfod i ymarfer, datblygu, gwneud ac arddangos eu gwaith yn y Fwrdeistref Sirol. Mae yna hefyd nifer sylweddol o weithgareddau celfyddydol cymunedol sy'n mynd o dan y radar, megis prosiectau untro

Asesiad Llesiant Lleol Basn Caerffili

mewn ysgolion, clybiau ieuencid, grwpiau pobl hŷn, cynlluniau haf, addysg oedolion a chanolfannau cymunedol.

Celfyddydau Gweledol - mae gan y celfyddydau gweledol bron i 20 o grwpiau yn y Fwrdeistref Sirol sy'n cwmpasu ffotograffiaeth, cerflunwaith, paentio, ffilm, gwneud printiadau a chrefftau.

Celf gyhoeddus - mae gan lawer o drefi a phentrefi yn y Fwrdeistref Sirol ddarnau dychmygus o waith celf cyhoeddus, gan gynnwys cerfluniau, mosaigau a murluniau. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gweithio gydag ysgolion lleol, cymunedau, artistiaid a sefydliadau celfyddydol i ddatblygu a chynhyrchu gwaith celf sy'n cyfoethogi ac yn adlewyrchu hanes a diwylliant cymunedau lleol.

Mae enghreifftiau o gelf gyhoeddus ym Masn Caerffili yn cynnwys Sgwâr Abertridwr; y 'Sedd Bysgod' ym Mharc Glan yr Afon Bedwas; nifer yn nhref Caerffili megis y 'Rheiliau Saeth' y tu allan i'r Ganolfan Groeso, 'Gwyddau'n Clebran' ac 'Wy Drwg' yn Stryd Windsor, y 'Bwrdd Diniweidrwydd' yn y Ganolfan Groeso yn y Ganolfan Groeso a cherflun Tommy Cooper y tu ôl i'r Ganolfan Groeso; arwydd Llanbradach; a chofeb lofaol Senghenydd.

Ffigur 6: Sedd Bysgod, Parc Glan yr Afon Bedwas

Ffigur 7: Cofeb Genedlaethol y Glowyr, Senghenydd

Dros y blynyddoedd diwethaf mae swm sylweddol o fuddsoddiad wedi canolbwyntio ar waith celf cyhoeddus yn y Fwrdeistref Sirol, gyda thua £1.7 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn prosiectau o'r fath. Mae cyllid ar gyfer y cynlluniau hyn wedi dod oddi wrth y Cyngor, ac amrywiaeth o sefydliadau allanol, gan gynnwys arian Ewropeaidd.

Mae cynnwys y gymuned leol yn arwyddocâd eu treftadaeth leol yn bwysig er mwyn sicrhau ymdeimlad o le a chynyddu balchder a lles cymunedol.

Mae Basn Caerffili yn gartref i ystod eang o glybiau a chymdeithasau, gan gynnwys grwpiau sgowtiaid, partneriaethau cymunedol, cymdeithasau garddio, grwpiau treftadaeth, corau, clwb camera, band pres, cymdeithasau celfyddydol, cymdeithasau blodau, cerddwyr, grwpiau henoed, clybiau cinio, Sefydliadau merched, ymddiriedolaethau cadwraeth a grwpiau mamau a phlant bach.

Gall cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol fod yn ffordd dda o ddod â phob rhan o'r gymuned ynghyd a meithrin cydlyniant cymunedol. Mae hyn wedi bod yn arbennig o bwysig ers dechrau'r pandemig Covid-19, ac er bod cyfarfod ag eraill wedi bod yn broblematig am gyfnod sylweddol o amser, mae'r clymau sydd wedi'u creu o fewn ein cymunedau wedi golygu bod unigolion bregus wedi cael eu cefnogi yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Mae gwirfoddoli yn rhoi cyfle i gwrdd â phobl newydd, i fagu hyder a dysgu sgiliau newydd ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol ac i gael hwyl mewn lleoliad anffurfiol. Heb i wirfoddolwyr roi o'u hamser er budd eu cymunedau lleol, ni fyddai'r un o'r clybiau a chymdeithasau a restrir uchod yn gallu bodoli.

Mae'r eglwysi a chapeli niferus ym Masn Caerffili hefyd yn gartref i ymdrechion gwirfoddoli, yn enwedig darparu clybiau cinio a dosbarthu bwyd i'r rhai mewn angen. Mae nifer o fanciau bwyd ym Masn Caerffili sy'n darparu bwyd rhad iawn neu am ddim i'r rhai mewn angen neu ar incwm isel - mae'r rhain yn cynnwys Ymddiriedolaeth Plwyf Bedwas, Machen, Llanfihangel-y-fedw a Rhydri, Eglwys Connect Life a Chanolfan Gymunedol y Fan.

Mae manteision meddyliol a chorfforol ymarfer corff wedi'u dogfennu'n helaeth. Trwy waith caled aelodau'r gymuned, mae llawer o glybiau a

Asesiad Llesiant Lleol Basn Caerffili

thimau chwaraeon ym Masn Caerffili gan gynnwys pêl-droed, rygbi, criced, tennis, bowlio a phêl-rwyd. Os yw cenedlaethau'r dyfodol am wireddu'r manteision iechyd o fod yn gorfforol weithgar yna mae angen mynd i'r afael â'r rhwystrau i gyfranogiad, yn enwedig ymhlith merched ifanc, sydd fel arfer yn rhoi'r gorau i weithgareddau chwaraeon yn eu harddegau. Gall ystod amrywiol o brofiadau plentyndod helpu i ennyn diddordeb gydol oes mewn chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol.

Yn bennaf, mae tirwedd naturiol Basn Caerffili wedi'i nodweddu gan olion y newid diwydiannol mawr a ddigwyddodd yn ardal De Cymru ar ddiwedd y 18^{fed} ganrif a dechrau'r 19^{eg} ganrif. Ceir nifer o enghreifftiau o dreftadaeth ddiwydiannol gynlluniedig, ac mae'r rhain yn darparu treftadaeth ddiwydiannol gyfoethog yr ardal, sy'n cael ei chydabod fwyfwy fel nodwedd unigryw'r Fwrdeistref Sirol a Chymoedd De Cymru yn ehangach.

Mater allweddol o ran treftadaeth ddiwydiannol yr ardal yw ei diogelu ac, yn bwysicach fyth, cael ailddefnydd buddiol o'i hadeiladau. Bydd dod â'r adeiladau hyn yn ôl i ddefnydd yn helpu i sicrhau eu bod yn parhau i gael eu cadw.

Ym Masn Caerffili mae cyfanswm o 91 **Adeilad Rhestredig** – mae'r term hwn yn cyfeirio at adeilad neu adeiledd arall sydd wedi'i ddynodi'n swyddogol fel un ag arwyddocâd pensaernïol, hanesyddol neu ddiwylliannol arbennig:

- Cwm Aber – 5 x Gradd II ac 1 x Gradd II* (Beddrod William Edwards ym mynwent eglwys Sant Ilan, Eglwysilan)
- Bedwas Tretomos a Machen – 14 x Gradd II a 2 x Gradd II* (Peiriandy Glofa Bryngwyn ac Eglwys Sant Barrwg)
- Caerffili – 17 x Gradd II ac 1 x Gradd I (Castell Caerffili)
- Llanbradach a Phwllypant – 12 x Gradd II

- Penyrheol, Trecenydd ac Eneu'r-glyn - 6 x Gradd II ac 1 x Gradd II* (Capel Groeswen)
- Rhydri – 27 x Gradd II ac 1 x Gradd II* (Castell Rhiw'r Perrai)
- Y Fan – 4 x Gradd II

Ffigur 8: Eglwys Sant Barrwg, Bedwas

Mae 19 o **Henebion Cofrestredig** ym Masn Caerffili – mae'r rhain yn safleoedd o bwysigrwydd archeolegol gyda gwarchodaeth gyfreithiol benodol rhag difrod neu ddatblygiad:

- Cwm Aber – 4
- Bedwas Tretomos a Machen – 5
- Llanbradach – 1
- Rhydri – 4
- Caerffili – 3
- Y Fan - 1
- Penyrheol, Trecenydd ac Eneu'r-glyn - 1

Ffigur 9: Castell Rhiw'r Perrai, Rhydri

Mae pedair **Ardal Gadwraeth** ym Masn Caerffili – Draethen, Groeswen (Caerffili), Llanbradach a Chastell a Pharc Rhiw'r Perrai (Rhydri). Mae'r term Ardal Gadwraeth bron bob amser yn berthnasol i ardal (trefol neu ganol pentref fel arfer) sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, yr ystyrir bod ei chymeriad yn haeddu cael ei chadw neu ei gwella.

Asesiad Llesiant Lleol Basn Caerffili

8 Yr hyn y mae ein trigolion wedi'i ddweud wrthym

Mae barn cymunedau ar sut y defnyddir adnoddau i ddiwallu eu hanghenion yn hanfodol, er mwyn helpu i lywio'r ffordd y caiff rhaglenni a phrosiectau eu darparu o fewn ac ochr yn ochr â sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae pobl yn cael eu cynnwys drwy gydol y broses o asesu llesiant ein hardaloedd cymunedol, Bwrdeistref Sirol Caerffili a Gwent, hyd at osod yr amcanion a fydd yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Llesiant. Er mwyn casglu safbwyntiau cymunedol i gefnogi'r broses Asesu datblygwyd proses ymwneud cyson gan grŵp o weithwyr proffesiynol ymgysylltu a chyfathrebu o bob rhan o'r sefydliadau sy'n aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Oherwydd yr anawsterau amlwg o ran gallu ymgysylltu â phobl wyneb yn wyneb oherwydd pandemig Covid-19, arolwg ar-lein oedd y prif ddull o ymgysylltu. Roedd copïau papur hefyd ar gael mewn mannau cyhoeddus megis llyfrgelloedd a meddygfeydd. Yn ogystal, trefnwyd dau sesiwn gweithdy ar gyfer pob un o'r pum ardal gymunedol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, gan alluogi pobl i gyfrannu eu barn trwy drafodaethau grŵp. Defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol i hysbysebu'r arolwg a chafodd gweithdai a grwpiau rhanddeiliaid eu rhestru i annog cymunedau a grwpiau i gymryd rhan.

Rydym wedi gallu dadansoddi barn trigolion o fewn yr ardaloedd cymunedol trwy god post a dadansoddiadau eraill, fel y gellir deall gwahanol ganfyddiadau o fewn ardal a'u cymharu â'r data yn yr Asesiad Llesiant Lleol hwn.

O fewn Basn Caerffili, roedd llawer o ymatebwyr yn meddwl ei fod yn lle cyfeillgar i fyw gyda chymdogion da, ac roedd hyn wedi dod yn amlycach fyth yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf oherwydd y pandemig. Roedd y farn ar y cyfleusterau oedd ar gael ac amrywiaeth y cyfleusterau hynny a chysylltiadau cludiant hefyd yn ffafriol ar y cyfan, gyda'r ardal yn cynnwys cymysgedd da o fannau gwyrdd a threfol fel Castell Caerffili, y parciau a'r

mynyddoedd a'r coetiroedd cyfagos, ynghyd â chyfleusterau hamdden, siopau, deintyddion a meddygon. Dywedodd yr ymatebwyr wrthym fod llawer o fannau agored ar gael yn eu cymunedau lleol, a bod ganddynt fynediad i llawer o barciau a mannau agored i'w mwynhau, sy'n gwneud i'w cymunedau lleol deimlo'n fwy bywiog a deniadol i bawb.

Fodd bynnag, roedd nifer o bobl wedi'i chael hi'n anodd cael apwyntiad gyda'u meddygfa leol. Roeddent yn teimlo y dylid gwneud mwy hefyd i helpu grwpiau bregus, yn enwedig yr henoed, lle'r oedd unigrwydd a theimlo'n ynysig yn broblem.

Er bod llawer o ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r angen am dai fforddiadwy, roeddent yn pryderu bod eu hamgylchedd lleol yn cael ei ddifetha gan ddatblygiadau tai ar fannau gwyrdd. Roeddent o'r farn y dylid ystyried tai o safon sy'n addas ar gyfer y dyfodol gan ddefnyddio safleoedd tir llwyd yn amlach.

Roedd diogelwch cymunedol yn flaenoriaeth i llawer yn yr ardal, ond roedd gwahaniaeth barn ynghylch teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain. Roeddent yn meddwl y gellid helpu hyn drwy gynyddu nifer yr heddlu ar y bîl, er enghraifft, i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, lladradau a diogelwch ar y ffyrdd. Dywedodd rhai ymatebwyr wrthym nad oeddent yn teimlo'n ddiogel yn ystod y nos, a phan ofynnwyd iddynt beth y gellid ei wneud i helpu i wella hyn, y prif ymateb oedd cynyddu goleuadau stryd yn ystod misoedd y gaeaf gan y byddai'n eu helpu i deimlo'n fwy diogel yn ystod yr amser hwn. Yn ogystal, gofynnodd rhai ymatebwyr am fwy o grwpiau cymunedol i bobl ifanc ddarparu gweithgareddau iddynt y tu allan i'r ysgol a helpu i'w hatal rhag ymgynnull mewn grwpiau mawr a bygwth preswylwyr eraill.

Roedd cytundeb eang bod cymunedau eisoes yn gwneud llawer i helpu i wella eu cymdogaethau ac mae parodrwydd i wneud mwy, gyda'r gefnogaeth a'r anogaeth gywir gan yr awdurdodau er mwyn cynyddu cyfranogiad.

Asesiad Llesiant Lleol Basn Caerffili

Cyfeiriadau

¹Amcangyfrifon poblogaeth canol 2020, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

²Amcangyfrifon poblogaeth canol 2020, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

³Cofrestr Treth y Cyngor CBS Caerffili, Rhagfyr 2021

⁴Amcangyfrifon Poblogaeth Canol 2020, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

⁵ Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru 2018, Llywodraeth Cymru

⁶ Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru 2018, Llywodraeth Cymru

⁷Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru 2018, Llywodraeth Cymru

⁸ Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru 2018, Llywodraeth Cymru

⁹ Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru 2018, Llywodraeth Cymru

¹⁰Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru 2018, Llywodraeth Cymru

¹¹Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru 2018, Llywodraeth Cymru

¹²Tabl Cyfrifiad 2011 KS207WA, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

¹³Tabl Cyfrifiad 2011 KS204EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

¹⁴Tabl Cyfrifiad 2011 KS201EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

¹⁵Tabl Cyfrifiad 2011 KS209EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

¹⁶<https://www.zap-map.com/live/>

¹⁷MALIC 2019 Data Dangosydd Parth Mynediad i Wasanaethau, StatsCymru

¹⁸Data Dangosyddion Parth Diogelwch Cymunedol MALIC 2019, StatsCymru

¹⁹Data Dangosyddion Parth Diogelwch Cymunedol MALIC 2019, StatsCymru

²⁰Data Dangosyddion Parth Diogelwch Cymunedol MALIC 2019, StatsCymru

²¹Data Dangosyddion Parth Diogelwch Cymunedol MALIC 2019, StatsCymru

²²Data Dangosyddion Parth Diogelwch Cymunedol MALIC 2019, StatsCymru

²³Data Dangosyddion Parth Diogelwch Cymunedol MALIC 2019, StatsCymru

²⁴Tabl Cyfrifiad 2011 KS301EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

²⁵Data Dangosyddion Parth Iechyd MALIC 2019, StatsCymru

²⁶Data Dangosyddion Parth Iechyd MALIC 2019, StatsCymru

²⁷Data Dangosyddion Parth Iechyd MALIC 2019, StatsCymru

²⁸Disgwyliad oes, disgwyliad oes iach a disgwyliad oes heb anabledd i wrywod/benywod ar enedigaeth yn erbyn Wardiau Cyfrifiad 2011 2009 i 2013, Swyddfa Ystadegau Gwladol

²⁹Tabl Cyfrifiad 2011 KS301EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

³⁰Data Dangosyddion Parth Tai MALIC 2019, StatsCymru

³¹Data Dangosyddion Parth Tai MALIC 2019, StatsCymru

³²Data Dangosyddion Parth Tai MALIC 2019, StatsCymru

³³Data Dangosyddion Parth Addysg MALIC 2019, StatsCymru

³⁴Data Dangosyddion Parth Addysg MALIC 2019, StatsCymru

³⁵Tabl Cyfrifiad 2011 KS601EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

³⁶Tabl Cyfrifiad 2011 KS501EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

³⁷ Tabl Cyfrifiad 2011 KS605EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

³⁸<https://valleysregionalpark.wales/>

³⁹Tabl Cyfrifiad 2011 KS207WA, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol